Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw
**Heol Ddu**
**Treboeth**
**Abertawe**
**SA5 7HB**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y nod
The Corporate Standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw wedi ei lleoli yn Nhreboeth, Abertawe, ac yn gwasanaethu yn bennaf ardaloedd dosbarth gweithiol yng ngogledd y ddinas.

Ar hyn o bryd mae 408 o ddisgyblion (cyfwerth ag amser llawn) yn yr ysgol.  Mae 15 dosbarth, gan gynnwys dau ddosbarth meithrin.  Pedwar y cant o'r disgyblion sy'n dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg.  Mae bron yr holl ddisgyblion yn dod o gefndir gwyn Prydeinig.  Mae 27% o'r disgyblion wedi eu cofrestru i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn uwch na ffigwr yr awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae gan 20% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol.  Mae gan un y cant o'r disgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig, sydd yn is na'r ffigwr cenedlaethol.

Y gyllideb ysgol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw yw £2,678, sy'n cymharu ag uchafswm o £5,744 ac isafswm o £ 2,550 ar gyfer ysgolion cynradd yn Abertawe.  Mae gan yr ysgol y gyllideb 84edd uchaf fesul disgybl allan o'r 89 ysgol gynradd yn Abertawe.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers i'r ysgol gael ei sefydlu yn haf 1994.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw yn ysgol dda oherwydd bod:

- llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn dda, ac yn aml yn dda iawn, yn ystod eu hamser yn yr ysgol;
- dysgwyr yn cyflawni canlyniadau cyffredinol dda yng nghyfnod allweddol 2 ac mae canlyniadau cyfnod allweddol 1 yn gwella;
- yr ysgol yn darparu ystod gyfoethog ac amrywiol o brofiadau dysgu; a bod
- cryfderau arwyddocaol yn yr addysgu a nodweddion rhagorol yn perthyn i'r asesu.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd

- ansawdd arweinyddiaeth yr ysgol, gydag ymdeimlad cryf o weledigaeth a disgwyliadau uchel iawn o staff a dysgwyr;
- effaith dylanwadol iawn yr arweinyddiaeth ar safonau;
- gweithdrefnau hunan-arfarnu effeithiol iawn;
- ymrwymiad parhaus i welliant pellach; a'r
- cynnydd arbennig o dda wrth fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad arolygu blaenorol.

## Argymhellion

Dylai'r ysgol:

A1 barhau i wella cyrhaeddiad bechgyn yng nghyfnod allweddol 1;

A2 sicrhau cynnydd pellach yng nghyfran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau uwch;

A3 cryfhau rôl y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol; a

A4 datblygu ymhellach y ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang ac addysg fenter

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion, a rhoddwyd gwahoddiad i gyflwyno astudiaeth achos arfer ragorol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae asesiadau sylfaen yn dangos bod mwyafrif sylweddol o ddysgwyr yn dechrau yn yr ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd is na'r hyn a ddisgwylir gan blant o'r un oedran. Fodd bynnag, mae bron yr holl ddysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da, ac yn aml, da iawn yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Rhwng 2008 a 2010 bu patrwm o welliant yng nghanlyniadau dysgwyr ar ddiwedd cyfnodau allweddol 1 a 2.

Yn 2010, yn nghyfnod allweddol 1, roedd canran y disgyblion yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y pynciau craidd yn gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg yng Nghymru ac uwchlaw ffigurau cyfartaledd Cymru gyfan. Yr ysgol oedd yr uchaf yn y teulu ysgolion. Mae merched yn cyflawni'n well na bechgyn.

Yn 2010, yn nghyfnod allweddol 2, roedd canran y disgyblion yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y pynciau craidd yn gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg yng Nghymru ac uwchlaw ffigurau cyfartaledd Cymru gyfan. Yr ysgol oedd yr uchaf yn y teulu ysgolion. Dros 2008-10, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 wedi cyflawni'n dda mewn Cymraeg a Saesneg wrth gymharu ag disgyblion yn ysgolion tebyg a ffigurau Cymru gyfan. Roedd y canlyniadau hefyd yn dda mewn mathemateg yn 2010. Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng perfformiad perthnasol bechgyn a merched.

Fel arfer, mae canran y disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 sy'n cyrraedd y lefel uwch (lefel 3) yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r canran sy'n cyrraedd y lefel uwch (lefel 5) wedi bod gan mwyaf yn agos i'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Yn 2010, roedd y ffigwr yn uwch nag ar gyfer ysgolion tebyg, yn enwedig mewn mathemateg.

Mae canlyniadau 2011 yn y ddau gyfnod allweddol yn uwch na rhai'r pedair blynedd flaenorol.

Yn gyffredinol, mae disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda gyda bron pob un yn cyrraedd y lefelau disgwyliedig yn y ddau gyfnod allweddol. Mae disgyblion mwy galluog a thalentog yn cyflawni'n dda iawn.

Mae medrau meddwl y rhan fwyaf o'r disgyblion a'u gallu i weithio'n annibynnol yn datblygu'n arbennig o dda. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gwneud penderfyniadau synhwyrol ac yn gwybod beth i'w wneud wrth wynebu heriau newydd.

Mae llawer o ddysgwyr yn darllen ac yn ysgrifennu'n dda. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r dysgwyr hŷn yn darllen yn hyderus ac yn rhugl yn Gymraeg a

Saesneg. Mae'r mwyafrif yn ysgrifenwyr cymwys ac yn sillafu ac atalnodi'n gywir. Maent yn ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol ac at wahanol ddibenion, gan ddangos y gallu i amrywio arddull. Yn gyffredinol, mae gan ddisgyblion afael gadarn o reolau gramadeg ac mae llawer yn gwneud defnydd da o derminoleg pwnc berthnasol. Mae mwyafrif y disgyblion yn trefnu eu gwaith ysgrifenedig yn dda ac yn cymryd gofal da o'r modd y maent yn ei gyflwyno.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwrando'n dda iawn ac yn siarad yn glir, gan gyfleu eu meddyliau a'u teimladau yn hyderus. Maent yn gallu egluro'r hyn y maent yn ei ddysgu ac yn cyfrannu sylwadau meddylgar yn y dosbarth ac mewn trafodaeth grŵp.

Mae safonau medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth (TG) a chyfathrebu disgyblion yn dda.

**Lles: Da**

Mae'r disgyblion yn dweud eu bod yn mwynhau dod i'r ysgol. Maent yn dangos llawer o ddiddordeb, hyder a balchder yn eu gwaith ac yn eu hysgol. Mae eu hymddygiad a'u hagweddau yn adlewyrchu eu cyfranogiad llawn mewn dysgu. Maent yn wynebu heriau newydd yn hyderus ac yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig sy'n cydweithio'n gytûn. Maent yn mynegi barn ac yn gwneud penderfyniadau am eu bywyd yn yr ysgol.

Mae ymddygiad disgyblion yn ardderchog. Maent yn fonheddig ac yn gwrtais.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol a'r pwyllgorau eco yn rhan weithredol o wneud penderfyniadau ac yn cynrychioli safbwyntiau'r disgyblion yn dda. Maent yn gallu rhestru gweithredoedd sydd yn ganlyniad uniongyrchol i'w mentrau.

Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae ganddynt agweddau positif tuag at fyw a bwyta'n iach. Maent yn mwynhau gweithgareddau corfforol.

Mae lefelau presenoldeb y disgyblion dros y tair blynedd diwethaf yn y 50% isaf o gymharu ag lefelau mewn ysgolion tebyg. Yn ôl data'r ysgol, mae presenoldeb wedi codi yn sylweddol o tua 91% yn haf 2010 i bron i 97% yn hydref 2010 a 95% yng ngwanwyn 2011.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn paratoi ystod eang iawn a chytbwys o brofiadau ysgogol i'r holl ddisgyblion sy'n ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd, rhifedd a TGCh a wedi ei chynllunio'n fanwl, gyda dilyniant clir o ran parhad a chynnydd. Mae hon yn nodwedd ragorol. Mae ffocws amlwg ar ddatblygu medrau'r disgyblion, yn gynnwys trawsieithu, ym mhob un o'r cynlluniau gwaith pynciol, gan gynnwys y cynlluniau tymor byr.

Mae'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol yn arbennig o effeithiol wrth ddatblygu medrau meddwl a gallu'r disgyblion i ddysgu'n annibynnol. Mae cynllunio da ar gyfer ymweliadau addysgol ac ymwelwyr â'r ysgol i gyfoethogi'r rhaglenni dysgu. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gynnydd a chyflawniad. Yn ogystal, mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau gydag ystod o sefydliadau lleol i roi profiadau amrywiol a pherthnasol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gyfoethog ar draws yr ysgol. Mae'r elfen hon yn ganolog i holl waith a bywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y disgyblion o'u lleoliad, eu hardal a Chymru yn datblygu'n mewn ffordd ardderchog.

Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth i agweddau cynaliadwyedd a'r amgylchfyd ac mae wedi derbyn achrediad y Faner Werdd. Darperir cyfleoedd amrywiol i'r disgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth drwy weithgareddau sy'n hybu ailgylchu, monitro defnydd o dwr ac ynni a gwella amgylchedd yr ysgol.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi ei datblygu'n drwyadl ar draws y cwricwlwm, a hefyd yng ngweithgareddau'r cyngor eco. Mae amgylchedd allanol yr ysgol, gan gynnwys yr ardd lysiau a'r mannau dysgu allanol, yn datblygu i fod yn gyfraniad gwerthfawr i brofiadau'r disgyblion.

Er nad oes ganddi unrhyw gysylltiadau gydag ysgolion mewn gwledydd eraill, mae'r ysgol yn gyffredinol yn hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo Masnach Deg a chefnogi mentrau elusennol. Mae gwaith elusennol yr ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang.

Mae gan yr ysgol bwyllgor eco brwdfrydig a gweithgar. Enillwyd y Faner Werdd ddwy waith ac mae aelodau'r pwyllgor yn gweithio'n ddiwyd i hybu materion amgylcheddol megis ailgylchu a chynaliadwyedd. Mae tŷ gwydr a gardd lysiau yn yr ysgol ac mae pob dosbarth yn cael cyfle i drin y tir.

**Addysgu: Rhagorol**

Mae'r addysgu'n gyson dda gyda rhai gwersi yn dangos arfer flaengar. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn defnyddio ystod briodol o ddulliau i ysgogi pob disgybl i gyrraedd ei botensial. Mae'r sesiynau dysgu wedi eu cynllunio'n drwyadl ac mae cyfraniad staff cynorthwyol yn sylweddol. Defnyddir adnoddau'r ysgol yn effeithiol i gefnogi'r dysgu. Mae awyrgylch dysgu brwydfrydig ym mhob gwers ac mae perthynas arbennig o dda rhwng athrawon a'r disgyblion. Mae'r athrawon yn rhoi pwyslais da ar ateb anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae hyn yn cynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion mwy abl a thalentog.

Defnyddia athrawon amrediad o weithdrefnau sy'n sicrhau bod y disgyblion yn gwybod pa mor dda maent yn ei wneud a'r hyn mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer marcio a darparu adborth llafar yn cyfrannu'n sylweddol at y nod hwn. Mae elfennau o ragoriaeth yn y gwaith marcio a lefelu gan yr athrawon. Maent yn asesu yn drwyadl a chywir iawn. Mae portffolios enghreifftiol

o ansawdd uchel iawn i hybu’r broses o lefelu gwaith y disgyblion ac i athrawon dracio cynnydd disgyblion o ddiwedd cyfnod allweddol 1 i ddiwedd cyfnod allweddol 2.  Mae’r agwedd hon yn eithriadol o dda.

Mae’r gweithdrefnau hefyd yn darparu cyfleoedd effeithiol i’r disgyblion arfarnu eu gwaith a gwaith eu cyd-ddisgyblion drwy’r ysgol.  Mae’r disgyblion yn ymwybodol o’u targedau gwella mewn iaith a rhifedd ac yn ymroi i’w cyrraedd.

Mae strategaethau ‘asesu ar gyfer dysgu’ yn weithredol ym mhob dosbarth.  Caiff disgyblion gyfleoedd cyson i arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau rhagorol ar gyfer tracio a monitro cynnydd a chyflwyniad.  Mae dadansoddiad o ddata asesu yn fanwl gyda ffocws dwys ar gynnydd unigolion a grwpiau penodol.  O ganlyniad, mae’r ysgol yn adnabod tangyflawniad yn fuan ac yn ymateb yn effeithiol iawn.  Mae’r drefn hon yn chwarae rôl arwyddocaol o ran galluogi llawer o ddysgwr i wneud cynnydd da neu dda iawn yn yr ysgol.

Mae’r adroddiadau i rieni a gofalwyr yn glir ac yn gynhwysfawr.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Rhagorol**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus a threfnus sy’n rhoi blaenoriaeth uchel i les a diogelwch ei disgyblion, yn ogystal ag annog eu hymglymiad yn eu hysgol a’u cymuned ehangach.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.  Yn ystod cyd-addoli ac achlysuron eraill, mae disgyblion yn cael eu hannog i fyfyrio ar eu bywydau eu hunain a phobl eraill.  Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi llwyddo gwella presenoldeb yn sylweddol.

Mae llais y disgybl yn cael lle blaenllaw ymhob agwedd o waith a bywyd yr ysgol gan gynnwys arfarniad ffurfiol ysgrifenedig o’r dysgu ar addysgu.  Caiff disgyblion o bob oedran gyfleoedd aml i ysgwyddo cyfrifoldebau, gwneud penderfyniadau, lleisio’u barn ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn.  Mae gweithdrefnau da i ddynodi anghenion penodol disgyblion ac i ddarparu ymyrraeth gynnar sy’n cyfrannu’n effeithiol at wella safonau cyflawniad.

Mae cymorth wedi’i dargedu’n glir ar gyfer grwpiau o ddisgyblion, er enghraifft y disgyblion gyda phroblemau ymddygiad neu gyflawniad.  Mae rhaglenni wedi’u teilwra'n dda i fodloni anghenion y grwpiau gwahanol o ddisgyblion neu unigolion, gan gynnwys y rhai mwy abl a thalentog.  O ganlyniad, mae mwyafrif o’r disgyblion yn gwneud cynnydd uwchlaw disgwyliadau.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae ethos yr ysgol yn adlewyrchu'r awyrgylch agored a hollgynhwysol. Nodwedd eithriadol yw'r ethos teuluol sy'n seiliedig ar weithredu polisïau sy'n parchu hawliau pob unigolyn o fewn cymuned yr ysgol. Mae hybu cydraddoldeb cyfleoedd, ynghyd â'r ymdeimlad o degwch i bawb, yn amlwg iawn yng ngweithgareddau'r ysgol.

Gwneir cyfraniadau da i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o'r gwahaniaethau diwylliannol sy'n bodoli ac fe drafodir y gwahaniaethau ethnig, crefyddol, diwylliannol ynghyd â'r gwahaniaethau ieithyddol sy'n bodoli mewn cymdeithas.

Mae'r ysgol ar safle eang ac yn darparu digon o le. Mae'r adeilad yn cynnig naws groesawgar i ddisgyblion, ac mae'n ddiogel a deniadol. Defnyddir ystafelloedd yn greadigol ac yn effeithiol i ategu addysgu a dysgu. Mae datblygiad yr ardaloedd tu allan, yr ardd a'r ardal Cyfnod Sylfaen wedi bod yn hynod o effeithiol.

Mae adnoddau'r ysgol o safon uchel.

Gofelir yn dda am adeiladau'r ysgol a'r safle.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth yn rhoi arweiniad rhagorol i'r ysgol ac mae cefnogaeth arbennig y dirprwy fel aelod o'r uwch dim rheoli yn ddylanwad pwysig iawn ar ei llwyddiant.

Mae'r pennaeth, y dirprwy a'r holl staff yn rhannu gweledigaeth glir. Maent yn gweithio'n effeithiol ac yn gytûn fel tîm ac yn derbyn cyfrifoldebau priodol ar bob lefel sy'n allweddol i adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu'n er mwyn gwella deilliannau'r disgyblion. Mae'r arweinyddiaeth yn gosod disgwyliadau cyson uchel sy'n herio disgyblion a staff i gyflwyno'r gwaith o'r ansawdd gorau. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ethos cefnogol lle mae ymdrechion a gwaith pawb yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.

Gwneir dadansoddiadau manwl o ystod eang o ddata perfformiad ysgol, sy'n gywir yn nodi pwysigrwydd gwella safonau llythrennedd a medrau ehangach, er enghraifft medrau meddwl. Mae'r ystod dda o fentrau i wella medrau darllen ac ysgrifennu'r disgyblion ar draws yr ysgol, yn sicrhau bod yr holl ymdrechion a gweithgareddau yn arwain at welliannau yn safonau'r disgyblion o bob oed a gallu.

Mae rolau staff a'u cyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir, gyda rolau arwain ar bob lefel wedi gwreiddio'n gadarn ar draws yr ysgol ac yn ddylanwadol iawn o ran codi safonau.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda mewn ystod eang o ddyletswyddau. Mae'r llywodraethwyr yn ymwybodol o rai o flaenoriaethau ysgol a rhai agweddau ar berfformiad disgyblion. Mae ganddynt bwyllgorau addas a strwythurau effeithiol yn eu lle i oruchwylio rheolaeth ariannol, adolygu polisïau a

gweithdrefnau’r ysgol sy’n sicrhau bod gofynion statudol yn cael eu bodloni. Llai effeithiol ydy rôl y llywodraethwyr yn herio’r ysgol fel cyfeillion beirniadol.

Mae mentrau ysgol i gwrdd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn datblygu'n effeithiol iawn. Rhoddir sylw blaenllaw i ddatblygiad yr iaith Gymraeg, lles disgyblion, gweithredu'r Cyfnod Sylfaen a'r trefniadau cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2 ar gyfer mynd i’r eithaf â dysgu. Hefyd, yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, bu’r pennaeth ar secondiad rhan amser i Lywodraeth Cymru yn gweithio ar gynllun Rhagori, i godi cyrhaeddiad a safonau addysgol unigolion trwy fynd i’r afael â’r cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a thangyflawniad addysgol disgyblion. Fel canlyniad, mae’r ysgol yn defnyddio ystod o strategaethau effeithiol er mwyn codi cynnydd a chyflwyniad.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o weithdrefnau i arfarnu ei gwaith, gan roi ystyriaeth dda i farn y rhieni, staff a disgyblion. Mae’r arweinwyr a’r staff yn parchu barn y disgyblion ac yn mabwysiadau'r syniadau y maent yn eu cynnig.

Mae’r broses hunanarfarnu yn drylwyr, yn ddilys ac wedi ei seilio’n gadarn ar dystiolaeth o fonitro'r dysgu a’r addysgu ac o ddadansoddi ystod eang o ddata cyrhaeddiad gwahanol grwpiau o ddisgyblion. O ganlyniad mae’r broses hunanarfarnu a’i deilliannau yn adnabod cryfderau’r ysgol yn glir, ac yn blaenoriaethu'r agweddau sydd angen eu gwella o ran deilliannau ac agweddau pwysig eraill.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn nodi blaenoriaethu penodol a phriodol i'w datblygu. Mae'r cynllun wedi'i gostio ac yn cynnwys amserlenni realistig a meini prawf llwyddiant i helpu i fesur effeithiolrwydd y blaengareddau.

Mae staff yn cael cyfleoedd da iawn i gynyddu eu gwybodaeth broffesiynol a'u medrau drwy ysgwyddo cyfrifoldebau arwain a thrwy ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae’r trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn arwain at fodloni’r anghenion hyfforddiant proffesiynol staff. Mae’r targedau penodol ar gyfer datblygiad yn seiliedig ar anghenion unigolion ynghyd â blaenoriaethau gwella ysgol gyfan.

Mae enghreifftiau da o gydweithio a rhannu arferion dysgu effeithiol eisoes o fewn yr ysgol a gydag ysgolion eraill. Mae effaith hyn i’w gweld yn glir iawn yn y cysondeb ar draws yr ysgol o ran ansawdd a safonau. Mae pwyslais parhaus ar fesur effaith blaenoriaethau ar addysgu a deilliannau disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol iawn gydag ystod eang o bartneriaid sy’n cael effaith fuddiol ar les a chyrhaeddiad ddisgyblion. Mae cysylltiadau cryf gyda’r gymuned leol a chymunedau ehangach. Mae enghreifftiau o gysylltiadau gyda’r busnesau lleol sy’n hybu ymwybyddiaeth a medrau entrepreneuraidd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn dylanwadu’n ddigonol ar y gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol gydag ystod o asiantaethau allanol i gwrdd ag anghenion penodol unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae partneriaethau da gyda nifer o asiantaethau'r awdurdod lleol fel gwasanaeth cymorth anghenion dysgu ychwanegol sy'n cael effaith bositif iawn ar ddatblygiad lles a chyrhaeddiad disgyblion; mae hon yn nodwedd gref o'r ddarpariaeth.

Mae'r pennaeth yn defnyddio ei harbenigedd yn werthfawr iawn trwy gyfraniadau at addysg uwch a chwrs proffesiynol cenedlaethol. Yn gyfnewid am hyn, mae'r ysgol yn elwa o ymwybyddiaeth gryf o ddatblygiadau cyfredol ym myd addysg.

Mae cysylltiadau cryf iawn rhwng yr ysgol ac ysgolion y clwstwr, yn gynnwys yr ysgol uwchradd Gymraeg leol y mae'r disgyblion yn trosglwyddo iddi.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae digon o staff addysgu a staff cynorthwyol gan yr ysgol. Maent yn cydweithio'n effeithiol ac yn effeithlon iawn gyda'i gilydd. Gwneir defnydd arbennig iawn o arbenigeddau staff i wella ansawdd yr addysg a chodi safonau'r disgyblion. Gwna'r athrawon ddefnydd da iawn o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu. Mae'r modd y rheolir yr amser hwn yn cyfrannu'n effeithiol at gynnal y gwelliant parhaus yn lles a chyraeddiadau disgyblion.

Mae rheolaeth effeithlon ar gyllid. Mae penderfyniadau gwariant yn cyfateb i'r blaenoriaethau ar gyfer datblygiad yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da iawn am arian. Mae'n defnyddio ei hadnoddau dysgu, gan gynnwys arbenigedd staff, yn effeithiol iawn. Mae'r ysgol wedi llwyddo'n eithriadol i hybu lles disgyblion, ac yn sicrhau cynnydd uwchlaw'r disgwyliadau yn eu medrau a'u gwybodaeth o fan cychwyn isel adeg dechrau yn yr ysgol.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni/gwarcheidwaid**

Dychwelwyd 39 o holiaduron y rhieni. Mae'r rhan fwyaf yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol. Dywed rhieni fod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel ynddi. Mae'r rhan fwyaf yn credu bod ymddygiad y disgyblion yn dda, bod y disgyblion yn cael eu parchu, eu trin yn deg a'u bod yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae bron pob rhiant yn teimlo bod yr addysgu yn dda a llawer yn teimlo fod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o'r rhieni yn nodi nad ydynt yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. Hefyd, mae ychydig o rieni o'r farn nad oes digon o amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Mae llawer o rheini o'r farn bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda neu yn dda iawn.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Mae agweddau dysgwyr yn gadarnhaol iawn am eu hysgol. Mae pob un yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bron pob un yn meddwl bod yr ysgol yn ymdrin â bwlio'n dda. Mae bron pob un yn gwybod pwy y gallant siarad â nhw os ydynt yn poeni neu os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Mae pob un o'r dysgwyr o'r farn bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac mae bron pob un yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae bron pob un hefyd yn teimlo bod plant yn ymddwyn yn dda.

# Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Alun Morgan | Arolygydd Cofnodol |
| Jeff Jones | Arolygydd Tîm |
| Catherine Evans | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Amanda Lawrence | Arolygydd Cymheiriaid |
| Susan Davies (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl.  Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.  Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati.  Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |